## 3 DADANSODDI BYLCHAU

***SUT MAE'R BWLCH RHWNG LLE RYDYCH AR HYN O BRYD A LLE RYDYCH EISIAU BOD YN EDRYCH?***

Mae'r adran hon yn dadansoddi maint y bwlch rhwng lle rydych ar hyn o bryd a lle rydych eisiau bod. Bydd yr adran hon yn rhoi syniad i chi o raddfa'r newid a pha feysydd sy'n rhaid ymdrin â hwy yng nghynllun gweithredu'r project. Yn yr adran hon, yn seiliedig ar y dadansoddiad sefydliadol a'r dadansoddiad amgylcheddol, gallwch yn awr:

- Nodi'r hyn sy'n rhaid i chi ei gyflawni a'r prif rwystrau i gyflawni amcanion y project.
- Nodi'r hyn sydd eisoes yn ei le i gyflawni amcanion y project.
- Nodi'r hyn rydych yn ei wneud sydd eisoes yn mynd y tu hwnt i'r lefel perfformiad angenrheidiol i gyflawni amcanion y project.

| | **CANLLAWIAU BYR** |
|---|---|
| **BYLCHAU NEGYDDOL** | Nodwch lle mae'r perfformiad ar hyn o bryd yn llai na'r perfformiad angenrheidiol.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Yng nghyd-destun 'pobl', beth yw'r bylchau o ran perfformiad?<br>• Yng nghyd-destun 'prosesau', beth fydd yn llesteirio'r project?<br>• A yw'r newid ar raddfa fawr neu ar raddfa fach ac a fydd hynny'n gwneud hi'n anoddach i'r project lwyddo? |
| **BYLCHAU NIWTRAL** | Lle mae'r perfformiad ar hyn o bryd ar yr un lefel â'r perfformiad angenrheidiol.<br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Yng nghyd-destun 'pobl', beth sydd eisoes yn ei le i fodloni anghenion y project?<br>• Yng nghyd-destun 'prosesau', beth sydd eisoes yn ei le i fodloni anghenion y project. |
| **BYLCHAU CADARNHAOL/YR AMCANION EITHAF (STRETCH GOALS)** | Yn yr adran hon, nodwch lle mae'r perfformiad ar hyn o bryd yn well na'r perfformiad angenrheidiol.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Pa elfennau o'r project sy'n rhagori ar eich disgwyliadau?<br>• A ellir defnyddio'r elfennau hynny sy'n rhagori ar eich disgwyliadau i ddatblygu amcanion eithaf fel bod y project yn cyflawni mwy na'r disgwyliadau gwreiddiol? |